# Comisiwn y Cynulliad

Lleoliad:
**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Ty Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 28 Mehefin 2012**

Amser:
**10:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Carys Evans, 029 2089 8598**
Clerc y Pwyllgor

## Agenda
AC(4)2012(4)

### 1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

- **Datganiadau o fuddiant**

- **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol** (Tudalennau 1 - 5)
  (9 Mai 2012) - Papur 1a

  (14 Mai 2012) - Papur 1b

### 2. Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) a'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog
Papur 2

### 3. Adroddiad a chyfrifon blynyddol ar gyfer 2011-12
Papur 3

### 4. Cyllideb ddrafft 2013-14
Papur 4

### 5. Rhaglen Gwasanaethau TGCh y dyfodol
Papur 5

## 6. Adolygiad o fanteision y prosiect UNO
Papur 6

## 7. Portffolios Comisiwn y Cynulliad (Tudalennau 6 - 10)
Paper 7

## 8. Y Pwyllgor Taliadau
Papur 8 i'w nodi

## 9. Rhaglen dreigl
Papur 9

# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd - 4B** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 9 Mai 2012** |
| Amser: | **12:00 - 13:15** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Angela Burns**<br>**Sandy Mewies**<br>**Rhodri Glyn Thomas**<br>**Peter Black** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu (Swyddog)**<br>**Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)**<br>**Dave Tosh (Swyddog)**<br>**Non Gwilym (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Ysgrifennydd)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd** |

## 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Nid oedd buddiannau i'w datgan.

## 2. Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol

Gosododd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yr adroddiad ar drafodaethau Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) a'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog gerbron y Cynulliad ar 4 Mai.

Ystyriodd y Comisiynwyr oblygiadau argymhellion y Bil a'r Cynllun a chytunwyd ar y modd y byddai'r Comisiynydd sy'n gyfrifol yn cyfrannu at y ddadl Cyfnod 1 ar 16 Mai.

Wrth benderfynu sut y dylai ymateb, ystyriodd y Comisiwn:

- Ei uchelgais i gael i gydnabod fel corff seneddol dwyieithog sy'n esiampl i eraill a'i ymrwymiad i wella'i wasanaethau dwyieithog;
- Yr angen sicrhau hyblygrwydd er mwyn medru datblygu a gwella gwasanaethau dros gyfnod;
- Costau unrhyw gyfrifoldebau newydd sydd wedi'u cynnwys yn argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ac effaith ei flaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau dwyieithog mewn gwahanol ffyrdd;
- Y gwaith ymgynghori a wnaed yn 2011 cyn y broses ddeddfu;
- Yr angen i sicrhau bod staff yn gwbl ymwybodol o oblygiadau'r Bil a'r Cynllun ar wasanaethau;
- Yr angen i sicrhau nad yw deddfwriaeth i geisio sicrhau bod ieithoedd swyddogol yn cael eu trin yn gyfartal yng ngwaith y Cynulliad yn cyfyngu'n anfwriadol ein gallu i newid y modd y caiff gwasanaethau eu darparu.

## 3. Unrhyw Fusnes Arall

Trafododd y Comisiynwyr y sylw a gafodd y Cynulliad yn y cyfryngau yn ddiweddar.

# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 14 Mai 2012** |
| Amser: | **14: – 16:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2012(4)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Angela Burns**<br>**Sandy Mewies** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu (Swyddog)**<br>**Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (Swyddog)**<br>**Dave Tosh (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Secretary)** |
| Eraill yn bresennol: | **Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1. Cyflwyniad

Croesawyd Dave Tosh, y Cyfarwyddwr TGCh, i'w gyfarfod Comisiwn cyntaf.

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau gan Rhodri Glyn Thomas AC.

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

1(iii) Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar y cofnodion yn ffurfiol.

Mae swyddogion yn gweithio ar bob un o'r camau.

## 2. Cyllideb 2013-14 - blaenoriaethau/goblygiadau strategol

Yn y cyfarfod ar 8 Mawrth, cytunodd y Comisiynwyr i barhau i weithio o fewn yr arian dangosol ar gyfer 2013-14 a nodwyd yn y ddogfen gyllideb, a thrafodwyd blaenoriaethau cyllideb 2013-14 yn y cyd-destun hwn.

Y gyllideb ddangosol yw £49.5 miliwn, y mae £34.1 miliwn ohoni ar gyfer talu costau gweithredol a £13.7 miliwn yn gysylltiedig ag Aelodau'r Cynulliad. Mae'r gweddill ar gael i'w fuddsoddi, yn unol â blaenoriaethau strategol y Comisiwn. Disgwylir y caiff adnoddau ychwanegol eu rhyddhau ar gyfer blaenoriaethau buddsoddi yn 2013-14, gyda chyfraniadau'n deillio o'r rhaglen gwerth am arian, y targedau effeithlonrwydd a chronfeydd wrth gefn.

Trafodwyd nifer o flaenoriaethau o ran buddsoddi. Er y cydnabuwyd mai TGCh a gâi'r brif flaenoriaeth, byddai'n rhaid parhau i drafod goblygiadau mabwysiadu'r dull blaenoriaethu hwn, ymhellach, mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Caiff cyllideb y Comisiwn ei gosod ym mis Medi. Mae'n debyg y bydd y dulliau ymgynghori ag Aelodau eleni, yn dilyn y fformat a fabwysiadwyd y llynedd, pan fu Angela Burns AC, y Comisiynydd sy'n gyfrifol am y portffolio perthnasol, yn mynd i gyfarfodydd y grwpiau ac yn cynnal sesiynau gwybodaeth gydag Aelodau
Cam i'w gymryd: Y swyddogion i ddatblygu'r ddogfen gyllideb yn unol â'r dull y cytunwyd arno.

## 3. Caffael yn y Cynulliad 2012-14

Cryfhawyd y tîm Caffael, ac mae bellach yn gweithredu'n fwy canolog wrth reoli'r broses o gaffael, yn arbennig gyda chytundebau gwerth dros £25,000.

Datblygir y gwaith hwn yn unol â nodau'r Comisiwn, yn benodol, yr angen i gaffael yn effeithlon pan fyddwn yn cefnogi datblygiad cadwyn gyflenwi amrywiol fydd yn cynorthwyo cyflenwyr bach i gystadlu; ac i ganolbwyntio ar werth am arian.

Croesawodd y Comisiynwyr y dull a ddatblygir, a fydd yn sicrhau bod modd mabwysiadu strategaethau priodol ar gyfer marchnadoedd gwahanol.

## 4. Adborth o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio (19 Ebrill 2012)

Er mwyn llywodraethu'n dda, bydd y Comisiwn yn cael adroddiad gan Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad, a bu'n trafod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor, a gynhaliwyd ym mis Ebrill.

Bu’r Comisiynwyr yn canolbwyntio ar ganfyddiadau’r Adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli Cyllidebau a phrosesau Rheolaeth Ariannol, a’r angen am ragor o ymwybyddiaeth ynghylch gwerth am arian, a gwelliannau o ran effeithlonrwydd, yn y sefydliad drwyddo draw.

## 5. Strategaeth wobrwyo Comisiwn y Cynulliad ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad

Daeth cytundeb cyflog presennol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer staff, i ben ar 31 Mawrth 2012. Mae’r trafodaethau'n parhau ar y trefniadau tâl yn y dyfodol.

## 6. Adroddiad y Bwrdd Rheoli i’r Comisiwn

Trafodwyd yr eitemau a ganlyn:

*Y Bwrdd Taliadau*

- Mae’r Bwrdd yn cynnig gwneud newidiadau i’r trefniadau ar gyfer llety dros nos i Aelodau y mae eu prif gartref yn yr ardal fewnol, a bydd yn gwneud penderfyniad terfynol ar y mater yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Cafodd yr Aelodau wahoddiad i gyflwyno eu barn ar y mater;

- Bydd y Bwrdd Taliadau’n cynnal adolygiad o’r trefniadau staffio ar gyfer Aelodau’r Cynulliad a bydd yn cysylltu â staff cymorth ac Aelodau wrth gyflawni’r gwaith hwn.

*TGCh*

- Gwnaed gwelliannau i’r gwasanaethau TGCh dros y misoedd diwethaf, sy’n cynnwys gwelliannau gan Atos a staff y Cynulliad. Yn eu plith mae gwelliannau o ran mynediad i’r system gyfrifiadurol mewn swyddfeydd etholaethol, ac archwiliadau o offer a seilwaith TGCh;

- Mae staff yr adran TGCh wedi cyfarfod â’r rhan fwyaf o Aelodau’r Cynulliad i nodi problemau. Bydd y wybodaeth a geir yn llywio’r dasg o gynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol, fel cysylltedd diwifr a rhagor o ddewis o ddyfeisiau i ddefnyddwyr.

- Dechreuwyd ar ddau faes gwaith pwysig: prosiect i arfarnu’r opsiynau ar gyfer darparu gwasanaeth TGCh yn y dyfodol, a datblygu strategaeth TGCh ar gyfer y Cynulliad a’r Comisiwn. Caiff Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am y ddau faes gwaith yn rheolaidd.

## 7. Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad

Nodwyd y rhaglen dreigl.

## 8. Unrhyw fusnes arall

Nid oedd unrhyw fater arall i’w drafod.

Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2012(4) Papur 7 rhan 1**

**Dyddiad:** Dydd Iau 28 Mehefin 2012
**Amser:** 10:30 – 12:30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Claire Clancy, estyniad 8233

# Portffolios Comisiwn y Cynulliad

## 1.0 Diben a chrynodeb

1.1 Adolygu portffolios presennol y Comisiynwyr a phenderfynu a oes angen unrhyw newidiadau.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Bod y Comisiynwyr yn ystyried eu portffolios yng ngoleuni'r flwyddyn weithredu gyntaf, gan gadw eu natur drawsbleidiol a sicrhau bod y llwyth gwaith, a natur y gwaith, yn cael ei rannu'n gytbwys.

## 3.0 Trafodaeth

3.1 Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol yn gorfforaethol am gyflawni'r swyddogaethau a roddir i'r Comisiwn ac am lywodraethu'r sefydliad ac, yn hynny o beth, am weithredu er budd y Cynulliad cyfan. Mae derbyn portffolio yn galluogi Comisiynwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am feysydd penodol a gweithio gyda swyddogion i ddarparu cyfeiriad strategol mwy trylwyr a chyson nag y mae cyfarfodydd y Comisiwn yn unig yn ei ganiatáu.

3.2 Ym mis Mehefin y llynedd, mabwysiadodd y Comisiwn y portffolios a nodir yn yr Atodiad.

3.3 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Comisiynwyr wedi datblygu cysylltiadau gweithiol gyda'r rhai sy'n darparu gwasanaethau yn eu meysydd portffolio. Mae hyn wedi cynnwys cwestiynu, y modd y caiff gwasanaethau eu darparu, ac ansawdd y gwasanaethau hynny, mewn modd defnyddiol ac adeiladol, ac maent wedi sicrhau bod cyfrwng ar gyfer cyfathrebu ynghylch barn ehangach yr Aelodau. Roedd y Comisiynwyr yn ateb cwestiynau'r Cynulliad ar eu meysydd portffolio eu hunain, a chafodd yr atebion eu gwirio gan y Comisiynydd sy'n gyfrifol.

3.4 Gall fod yn ddefnyddiol i ddisgrifio enghreiffitau o'r modd y mae ambell Gomisiynydd portffolio unigol wedi datblygu ei waith. Nid yw hon yn rhestr gyflawn o gwbl.

- Mae Sandy Mewies wedi cymryd diddordeb personol arbennig yng ngweithrediad y Senedd a phrofiad yr ymwelwyr sy'n dod i ystâd y Cynulliad, ac mae hi wedi ymwneud llawer â'r gwelliannau diweddar a wnaed i Siop y Cynulliad. Dangosodd gefnogaeth bersonol i fentrau cydraddoldeb ac mae hi wedi ymwneud llawer â chwblhau cynllun cydraddoldebau'r Cynulliad.

- Mae Angela Burns wedi arwain y ffordd yn y dasg o reolaeth ariannol a llywodraethu drwy'r flwyddyn. Mae hi'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio. Gweithia Angela'n agos gyda swyddogion ar strategaeth cyllideb y Comisiwn ac mae hi wedi llwyddo i arwain ar fater cytuno ar gyllideb y Comisiwn. Hi hefyd sy'n gyfrifol am y gwasanaethau ar gyfer Aelodau ac mae'n ymwneud â'r gwaith o werthuso'r gwasanaethau hynny.

- Mae Peter Black yn cynorthwyo i ddarparu cynlluniau TGCh gan gynorthwyo i ddatrys materion darparu'r gwasanaeth gydag Atos, yn ogystal ag ymwneud yn glos â'n prosiectau TGCh mawr. Yn ei rôl o gynorthwyo'r Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad, mae wedi cyfrannu at ddatblygu Strategaeth Pobl a Strategaeth ar gyfer Gwybrwyo, ac mae wedi cymryd diddordeb mewn materion anodd fel ad-drefnu'r adran ddiogelwch.

- Rhodri Glyn Thomas yw'r aelod sy'n gyfrifol am Fil Ieithoedd Swyddogol y Comisiwn. Bu'n ymwneud yn frwd â'r ymgynghoriad ar y Bil cyn deddfu, a'r cynllun, ac ar hyn o bryd mae'n gyfrifol am hynt y Bil drwy'r Cynulliad.

- Mae gan y Llywydd gysylltiad uniongyrchol rheolaidd â Keith Bush y Prif Gynghorydd Cyfreithiol, ond bu'n weithgar hefyd ynghylch materion cyfathrebu, a'r ffordd y defnyddir ystâd y Cynulliad i hywyddo gwaith y Cynulliad, ac mae hi wedi hyrwyddo'r gwaith ar ddatblygiad proffesiynol yr Aelodau a'u staff.

- Er nad yw David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, yn aelod ffurfiol o'r Comisiwn, fel y cytunwyd, mae wedi cefnogi'r Comisiwn drwy ganolbwyntio ar y Pierhead fel canolfan ar gyfer datblygu a thrafod

yn y Cynulliad, yn arbennig drwy gysylltiadau â Chanolfan Llywodraethiant Cymru.

3.5 Flwyddyn ar ôl mabwysiadu'r meysydd portffolio hyn, byddai'n briodol ystyried a ydynt yn gweithio'n dda ac a oes cydbwysedd o ran cyfrifoldebau:

- Mae'n ymddangos bod y galwadau o ran gwaith ar bortffolios, yn amrywio;
- Bydd rhai materion o bwys y bydd angen rhoi llawer o sylw iddynt yn y dyfodol agos, yn arbennig, TGCh;
- Mae cyfathrebu yn fater sy'n gyffredin drwy bob portffolio i raddau, a dylai'r gwaith o wella ein harferion cyfathrebu gael ei rannu.
- Rydym ar fin cynnal arolwg cwsmeriaid gyda'r Aelodau ac mae'n bosibl y bydd hyn yn creu diddordeb a galwadau newydd.
- Mae gwaith y Bwrdd Taliadau'n parhau, ac efallai y byddai'n fwy buddiol pe bai un Comisiynydd penodol yn cael cyfrifoldeb dros y cysylltiad â'r Bwrdd.

3.6 I fynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn, gallai'r Comisiynwyr ystyried y mân newidiadau a ganlyn a wnaed i'r portffolios: (dros y ddalen)

| **Portffolio** | **Comisiynydd** |
|---|---|
| Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn, gyda'r prif gyfrifoldeb am gyfathrebu a datblygiad proffesiynol yr Aelodau a'u staff. | Rosemary Butler |
| Y gyllideb, llywodraethu, gan gynnwys aelodaeth y Pwyllgor Archwilio. Cysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Gwella gwasanaethau i Aelodau. Y Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad. | Angela Burns |
| TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth. Cynaliadwyedd. | Peter Black |
| Gwasanaethau addysg, cyswllt cyntaf, Siop y Cynulliad, arlwyo a diogelwch. Ystâd a chyfleusterau'r Cynulliad. Swyddogaethau statudol y Comisiwn mewn perthynas â chydraddoldeb. | Sandy Mewies |
| Swyddogaethau a pholisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg. Y Gwasanaethau Cyfreithiol a rhyddid gwybodaeth. | Rhodri Glyn Thomas |

Hefyd, byddai David Melding yn parhau i gefnogi'r Comisiwn drwy arwain ar fater y Pierhead fel canolfan ar gyfer datblygu a thrafod yn y Cynulliad, ac ar gysylltiadau â Chanolfan Llywodraethiant Cymru.

**Mehefin 2012**

# Atodiad: Portffolios gwreiddiol

| **Portffolio** | **Comisiynydd** |
|---|---|
| Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn, gyda chyfrifoldeb dros y Gwasanaethau Cyfreithiol. | Rosemary Butler AC |
| Y gyllideb, llywodraethu, gan gynnwys aelodaeth y Pwyllgor Archwilio, a chysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Gwella gwasanaethau i Aelodau, cymorth cyflogaeth a datblygu proffesiynol ar gyfer Aelodau a'u staff. | Angela Burns AC |
| TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth, ystâd y Cynulliad, cyfleusterau a chynaliadwyedd. Y Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad. | Peter Black AC |
| Gwasanaethau addysg, cyswllt cyntaf, arlwyo a diogelwch. Swyddogaethau statudol y Comisiwn mewn perthynas â chydraddoldeb a rhyddid gwybodaeth. | Sandy Mewies AC |
| Ymgysylltu a chyfathrebu â'r dinesydd, allgymorth cenedlaethol a rhyngwladol. Swyddogaethau a pholisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg. | Rhodri Glyn Thomas AC |

Er nad yw David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, yn aelod ffurfiol o'r Comisiwn, cytunwyd y bydd yn cefnogi'r Comisiwn drwy ganolbwyntio ar y Pierhead fel canolfan ar gyfer datblygu a thrafod yn y Cynulliad, ac ar gysylltiadau â Chanolfan Llywodraethiant Cymru a sefydliadau eraill sy'n berthnasol i'r rôl hon.